IB DIPLOMA PROGRAMME
PROGRAMME DU DIPLÔME DU BI
PROGRAMA DEL DIPLOMA DEL BI

**WELSH B – HIGHER LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS B – NIVEAU SUPÉRIEUR – ÉPREUVE 1**
**GALÉS B – NIVEL SUPERIOR – PRUEBA 1**

Monday 6 May 2002 (morning)
Lundi 6 mai 2002 (matin)
Lunes 6 de mayo de 2002 (mañana)

1 h 30 m

Name/Nom/Nombre

| |
|---|
| |

Number/Numéro/Número

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

QUESTION AND ANSWER BOOKLET – INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Write your name and candidate number in the boxes above.
- Do not open this booklet until instructed to do so.
- This booklet contains all the Paper 1 questions (Text handling).
- Refer to the Text Booklet which accompanies this booklet.
- Answer the questions in the spaces provided.
- One mark is allocated per question unless otherwise indicated.

LIVRET DE QUESTIONS ET RÉPONSES – INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- Écrire votre nom et numéro de candidat dans les cases ci-dessus.
- Ne pas ouvrir ce livret avant d'y être autorisé.
- Ce livret contient toutes les questions de l'épreuve 1 (Lecture interactive).
- Se référer au livret de textes qui accompagne ce livret.
- Répondre à toutes les questions dans le livret de questions et réponses.
- Un point par question sauf indication contraire.

CUADERNO DE PREGUNTAS Y RESPUESTAS – INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- Escriba su nombre y número de alumno en las casillas de arriba.
- No abra este cuaderno hasta que se lo autoricen.
- Este cuaderno contiene todas las preguntas de la Prueba 1 (Manejo y comprensión de textos).
- Refiérase al cuaderno de textos que acompaña a este cuaderno.
- Conteste todas las preguntas en el cuaderno de preguntas y respuestas.
- Cada pregunta tiene un valor de un punto, a menos que se indique algo distinto.

| EXAMINER<br>EXAMINATEUR<br>EXAMINADOR | TEAM LEADER<br>CHEF D'ÉQUIPE<br>LÍDER DE EQUIPO | IBCA |
|---|---|---|
| TOTAL /60 | TOTAL /60 | TOTAL /60 |

**TESTUN A — CERDD**

*Mae Testun A yn rhan o gerdd hir sydd yn sôn am fugail o'r enw Alun Mabon. Darllenwch Destun A yn ofalus ac wedyn atebwch y cwestiynau canlynol.*

**1.** Yn ôl y darlun o Alun Mabon a gyflwynir inni yn y pennill cyntaf, a oedd y bugail hwn yn berson golygus?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**2.** Dyfynnwch unrhyw linell o'r pennill cyntaf sydd yn cefnogi eich ateb i gwestiwn 1.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**3.** Dyfynnwch unrhyw eiriau o'r pennill cyntaf sydd yn awgrymu fod gan Alun Mabon bersonoliaeth ddymunol.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**4.** Disgrifiwch leoliad tŷ Alun Mabon yn eich geiriau eich hun.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**5.** Mae pennill 2 yn cymharu bywyd Alun Mabon â bywyd blodyn y grug. Eglurwch pam y mae'r gymhariaeth hon yn un addas iawn.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**6.** Eglurwch ystyr lythrennol llinellau 13-14. *[2 farc]*

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**7.** Yn ogystal â deall llinellau 13-14 fel disgrifiad llythrennol o fywyd bob dydd y bugail, mae modd eu deall hefyd fel darlun cyffredinol o brofiadau bywyd y rhan fwyaf o bobl. Meddyliwch am un gair i grynhoi'r math o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yma. *[2 farc]*

(a) llinell 13: profiadau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(b) llinell 14: profiadau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**8.** Mae modd rhannu pennill 3 yn ddwy adran, sef llinellau 17-22, a llinellau 23-4. Beth sydd yn cael ei bwysleisio am yr olygfa yn llinellau 17-22?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**9.** Ym mha ffordd mae'r darlun yn llinellau 23-24 yn wahanol i, neu yn cyferbynnu â'r darlun yn llinellau 17-22?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**10.** Eglurwch ystyr llinell 30.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**11.** Mae llinell 20 yn dweud bod caneuon traddodiadol y bugeiliaid i'w clywed o hyd ar fynyddoedd Cymru. Chwiliwch yn Nhestun A am linell arall sydd yn golygu rhywbeth tebyg.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**12.** Beth, yn eich barn chi, yw'r 'heniaith' sy'n cael ei chrybwyll yn llinell 31?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**13.** Yn ôl Testun A, a yw traddodiadau Cymru yn parhau i fod yr un peth yn union heddiw ag yr oeddent yn amser Alun Mabon?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**TESTUN B — EISTEDDFOTA**

*Mae Testun B yn cynnwys dau ddarn gwahanol sydd yn sôn am eisteddfodau. Darllenwch Destun B yn ofalus ac atebwch y cwestiynau canlynol.*

**14.** Mae saith o'r gosodiadau canlynol am Destun B yn gywir. Rhowch y llythrennau sydd yn cyfateb i'r gosodiadau cywir yn y blychau. Mae un wedi'i wneud yn barod. *[6 marc]*

***Enghraifft:*** ***B***

☐

☐

☐

☐

☐

☐

**A.** Cynhaliwyd eisteddfodau gwych eleni ym Môn a Phontrhydfendigaid.

***B. Anedd y Cynganeddwyr a drefnodd yr e-steddfod gyntaf erioed.***

**C.** Cystadlaethau barddoniaeth yn unig oedd yn yr e-steddfod.

**CH.** Roedd rhai gwahaniaethau pwysig rhwng trefniadau'r e-steddfod ac eisteddfod arferol.

**D.** Ni chafodd neb weld cynnyrch yr e-steddfod nes bod y beirniaid wedi gorffen eu gwaith.

**DD.** Ni osodwyd teitl penodol ar gyfer y cynnyrch yng nghystadleuaeth yr englyn yn yr e-steddfod.

**E.** Ychydig iawn o feirdd a oedd yn fodlon mentro cystadlu yn yr e-steddfod.

**F.** Dim ond y beirdd eu hunain oedd â'r hawl i weld y sylwadau ar eu gwaith.

**FF.** Mae modd i bawb sydd yn gallu defnyddio'r We weld yr holl gerddi a anfonwyd i gystadlaethau'r e-steddfod.

**G.** Yn ôl beirniad swyddogol yr e-steddfod, mae'n anarferol i feirdd fod yn flaengar fel hyn.

**NG.** Mae Testun B yn enwi beirniaid yr e-steddfod yn glir.

**H.** Cyfansoddodd Robat Arwyn, Ann Davies a Nia Wyn Jones weithiau cerddorol yn arbennig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych.

**I.** Sioe i'w pherfformio gan blant ysgol uwchradd yw 'A Oes Ateb?'.

**J.** Mae Côr yr Eisteddfod yn cynnwys 425 o leisiau a ddaeth ynghyd o Gymru gyfan.

**L.** Bydd Bryn Terfel yn perfformio gwaith newydd sbon yn ystod yr wythnos.

**LL.** Hywel Wyn Edwards oedd Trefnydd yr e-steddfod.

**15.** Term newydd sbon yw e-steddfod, wedi'i lunio ar y patrwm 'e-bost'. Mae Testun B hefyd yn defnyddio term newydd arall ar gyfer yr e-steddfod. Nodwch ef yma.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**16.** Ceisiwch egluro pam mae'r gair 'e-steddfod' yn derm mor glyfar ar gyfer un o'r achlysuron sydd yn cael eu disgrifio yn Nhestun B.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**17.** Pam nad oes angen i neb drefnu wythnos o wyliau i ymweld â'r e-steddfod?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

*Chwiliwch yn Nhestun B am ymadroddion sydd yn gyfystyr (yn golygu'r un peth) â'r ymadroddion canlynol, ac ysgrifennwch eich atebion yn y man priodol. Mae un wedi'i wneud yn barod.*

***enghraifft: ystyried, edrych dros*** . . . . . . . . ***bwrw golwg dros*** . . . . . . . . .

**18.** yn wahanol i'r ffordd gyffredin . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**19.** y diwrnod olaf y mae'n bosibl gwneud rhywbeth . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**20.** ymateb i argyfwng, gweithredu oherwydd bod angen mawr . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**21.** siawns heb ei hail . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**22.** am lawer iawn o achosion, am lawer reswm . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**23.** llawer iawn o ganu a cherddoriaeth hyfryd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**TESTUN C — MARWOLAETH Y GYMRAEG?**

*Mae Testun C yn rhan o erthygl sydd yn sôn am sefyllfa'r Gymraeg yng nghefn gwlad Cymru ar hyn o bryd, ond mae'r paragraffau wedi cael eu gosod yn y drefn anghywir. Darllenwch baragraffau Testun C yn ofalus a gosodwch nhw yn y drefn gywir trwy ysgrifennu'r llythyren briodol yn y blwch. Mae un wed'i wneud yn barod.*

***Enghraifft:* *Paragraff 1*** [ *C* ]

**24.** Paragraff 2 [ ]

**25.** Paragraff 3 [ ]

**26.** Paragraff 4 [ ]

**27.** Paragraff 5 [ ]

*Darllenwch Destun C eto ac wedyn atebwch y cwestiynau canlynol.*

**28.** Beth mae awdur Testun C yn ei olygu pan ddywed fod 'yr haul yn machlud' ar iaith, diwylliant a ffordd draddodiadol y Cymry o fyw?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**29.** Chwiliwch yn Nhestun C am **ddau** reswm pam mae pobl ifainc yn gadael yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol. *[2 farc]*

(a) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**30.** A yw awdur Testun C yn credu bod modd ateb problemau cefn gwlad trwy ddulliau economaidd yn unig?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**31.** Esboniwch yn eich geiriau eich hun pam y mae awdur Testun C yn cymharu'r Gymraeg â'r iaith Ladin. *[2 farc]*

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**32.** Chwiliwch yn Nhestun C am ymadrodd sydd yn cyfleu bod rhywbeth yn digwydd yn anuniongyrchol, neu yn dawel heb i neb sylwi ei bod yn digwydd.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**33.** Mae awdur Testun C yn defnyddio pum term gwahanol i gyfeirio at bobl yn y broydd Cymraeg sydd yn poeni am sefyllfa'r Gymraeg. Nodwch **dri** derm traddodiadol neu niwtral, ac **un** term sarhaus neu ddirmygus. *[4 marc]*

(a) Y termau traddodiadol yw:

(i) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(ii) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(iii) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(b) Y term sarhaus/dirmygus yw:

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**TESTUN CH — RHAGLENNI TELEDU**

*Mae Testun CH yn cynnwys gwybodaeth am dair rhaglen deledu. Roedd penawdau uwchben y paragraffau hyn yn wreiddiol, ond maen nhw wedi mynd ar goll. Darllenwch Destun CH yn ofalus ac wedyn dewiswch y teitl cywir ar gyfer pob paragraff o blith y rhai sydd yn y golofn ar yr ochr dde, ac ysgrifennwch y llythyren yn y blwch.*

**34.** Rhaglen 1 ☐

**35.** Rhaglen 2 ☐

**36.** Rhaglen 3 ☐

**A.** Rasio Ceir yn Iwerddon
**B.** Ennill Arian Mawr
**C.** Dilyn Pobl y Preseli
**CH.** Colli'r Cwbl ar y Loteri
**D.** Trotian heb bedolau
**DD.** Datgelu'r Twyllwyr
**E.** Hen Geffylau Sir Benfro
**F.** Trotian i Iwerddon

**37.** Nodwch ddau beth yn Nhestun CH sydd yn profi bod Gŵyl Drotian Tregaron yn achlysur poblogaidd. *[2 farc]*

(a) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**38.** 20 o bobl sydd yn gweithio yn Nhŷ Gobaith. Pan enillon nhw'r Loteri, rhannwyd yr arian rhwng 21. Pam?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**39.** Pwy ddefnyddiodd ei enillion ar y Loteri i gynorthwyo'r gymuned leol yn gyfan?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**40.** Chwiliwch Destun CH am ymadrodd sydd yn cyfleu bod y Preseli ger y môr.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**41.** Ar wahân i'r golygfeydd hyfryd, pa nodwedd arall ar ardal y Preseli sydd yn gwneud y lle yn ddeniadol i ymwelwyr?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

*Dyma barhad o 'Rhaglen 2' yn Nhestun CH, ond mae dechrau a diwedd pob brawddeg wedi cael eu gwahanu oddi wrth ei gilydd. Gorffennwch y brawddegau canlynol trwy ddod o hyd i'r diweddglo cywir yn y golofn ar yr ochr dde, ac ysgrifennwch y llythyren briodol yn y blwch.* ***Byddwch yn ofalus****, mae mwy o ddewisiadau nag sydd eu hangen arnoch. Mae un wedi'i wneud yn barod.*

***Enghraifft: Bu criw Cefn Gwlad …*** [ *C* ]

**42.** Dilynodd y criw y ffermwyr lleol yn hel eu defaid … [ ]

**43.** Buont hefyd yn dilyn cymeriadau mewn sefydliadau … [ ]

**44.** Ac yn naturiol roedd yn rhaid ymweld â … [ ]

**45.** Meddai Dai, 'Mae 'da'r bobol lot o hiwmor, a nhw sydd â'r … [ ]

**46.** Mae'n amlwg bod Dai Jones wedi … [ ]

**47.** Hon fydd y rhaglen gyntaf … [ ]

**A.** dafodiaith bertaf yng Nghymru.'

**B.** brechdanau i gael picnic ar ben y Preseli.

***C.*** ***yn ffilmio yn ardal y Preseli dros flwyddyn gyfan y llynedd.***

**CH.** enwog lleol fel y siop-pob-dim ym Maenclochog.

**D.** Chymraeg mwyaf gwallus a glywais erioed.'

**DD.** nofio yr holl ffordd i Ffrainc.

**E.** i deithio ar hyd a lled Cymru yn chwilio am rai newydd.

**F.** weld ei gyfle i fynd am dro yn y wlad.

**FF.** thrigolion Cwm Gwaun er mwyn dathlu'r Hen Galan.

**G.** wedi bod ar eu gwyliau yn sir Benfro.

**NG.** mwynhau ymweld â nhw yn eu cynefin a chlywed eu hanes.

**H.** cyfres pedwar.

**I.** mewn cyfres o bedair.

**J.** i'r hendre dros y gaeaf, yn mynd i arwerthiant lloi ac yn cynaeafu.